OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1647

## Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005

## RHAN 3

Y gofynion ar gyfer Finyl Clorid

**Terfynau a therfynau ymfudiad**

**6.**—(1) O ran deunyddiau ac eitemau a weithgynhyrchir gan bolymerau finyl clorid neu gopolymerau —

(a) rhaid iddynt beidio â chynnwys monomer finyl clorid mewn mesur sy'n fwy nag 1 miligram y cilogram o'r deunydd neu eitem fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(1); a

(b) rhaid iddynt gael eu gweithgynhyrchu yn y fath fodd nad ydynt yn trosglwyddo i fwydydd y maent mewn cysylltiad â hwy unrhyw fesur o finyl clorid sy'n fwy na 0.01 miligram o finyl clorid y cilogram o fwyd fel y'i mesurir drwy'r dull dadansoddi a bennir yn rheoliad 7(2).

(2) Ni chaiff neb —

(a) gwerthu;

(b) mewnforio; neu

(c) defnyddio wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd,

unrhyw ddeunydd neu eitem o'r fath nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

**Dulliau Dadansoddi**

**7.**—(1) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw sampl at ddibenion sefydlu mesur y monomer finyl clorid sy'n bresennol yn y deunydd neu'r eitem er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â rheoliad 6(1)(a) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 80/766/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol lefel monomer finyl clorid mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd)(**1**).

(2) Y dull i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi unrhyw fwyd at ddibenion sefydlu mesur y finyl clorid sy'n bresennol yn y bwyd er mwyn penderfynu a yw deunydd neu eitem sydd neu a fu mewn cysylltiad â'r bwyd yn cydymffurfio â rheoliad 6(1)(b) fydd y dull a bennir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 81/432/EEC (sy'n gosod dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer rheolaeth swyddogol finyl clorid a ryddhawyd gan ddeunydd ac eitemau i fwydydd)(**2**).

(**1**) OJ Rhif L213, 16.8.90, t.42.
(**2**) OJ Rhif L167, 24.6.81, t.6.